yGoleuad

EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU · GOLEUNI Y BYWYD

CYFROL CXXXVIII RHIF 3 DYDD GWENER, IONAWR 15, 2010 Pris 40c

Gwasanaeth Gollwng ym Manceinion

Ar brynhawn dydd Sadwrn, Rhagfyr 5ed, 2009 daeth tyrfa dda ynghyd i Wasanaeth Gollwng y Barchedig Eleri Edwards yng nghapel Noddfa Oaker Avenue, West Didsbury, Manceinion. Yn bresennol roedd aelodau o gapeli Altrincham, Noddfa Oaker Avenue a Warrington, pobl ifanc Noddfa, plant a rhieni Clwb Cŵl Altrincham yn cynrychioli eglwysi yr Ofalaeth. Hyfrydwch oedd croesawu cyn-aelodau ynghyd â theulu Eleri, ffrindiau o Lerpwl, y Barchedig Anna Pilkington, ficer Christ Church gyfagos a Shou Hui o Taiwan a chaplan ym Mhrifysgol Manceinion. Roedd y capel o dan ei sang.

Eleri gyda Dr D. Ben Rees

Llywyddwyd y gwasanaeth gan y Parchedig Ddr. D. Ben Rees, Llywydd Henaduriaeth Gogledd Ddwyrain, ac wedi croesawu pawb i'r gwasanaeth offrymodd weddi yn cydnabod gweinidogaeth Eleri yn Lerpwl, Manceinion a Madagascar a chyd-ddarllenwyd Salm 117. Cafwyd darlleniad o'r Ysgrythur gan William a Megan Smithson a Mrs. Eflyn Evans, pobol ifanc ac aelod o eglwys Noddfa. Cyflwynwyd emynau gan Flaenoriaid ac aelodau o'r dair eglwys. Cawsom gân gan blant a rhieni'r Clwb Cŵl a diolchwyd i'r gweinidog am ei brwdfrydedd a'i chariad tuag at y plant.

Cyflwynwyd iddi Galendr yr Adfent, llun o'r plant ynghyd â llyfr o'u gwaith. Ar ran bobl ifanc Noddfa cyflwynwyd cerdyn arbennig o ffarwel wedi ei lunio gan Megan. Cafwyd datganiad o 'This little light of mine' gan Mary, chwaer Eleri, Dr. Geryl Rees ac Eleri ei hun gyda Lilian Bury, yr organyddes, yn cyfeilio yn ogystal â deuawd gan William Jones a Trefor Davies, Altrincham o 'Pwy fydd yma mewn can mlynedd'.

Balch oeddem o groesawu Mr. Bryn Jones o Flaenau Ffestiniog yn gyfieithydd yn y gwasanaeth i sicrhau bod pawb yn deall beth oedd yn mynd ymlaen. Gwnaeth ei waith yn dawel a di-drafferth ac roedd pawb yn gwenu yn y lle iawn!

Diolchodd Mr. Elwyn Evans, Ysgrifennydd Dosbarth Manceinion, i bawb oedd yn cymryd rhan, yn enwedig y plant. Teimlai fod awyrgylch cynnes yn y capel.

Wedi cadarnhâd swyddogol o ymddeoliad y Barchedig Eleri Edwards gan y Parchedig Ddr. Elfed ap Nefydd Roberts cafwyd myfyrdod byr ganddo. Er mai achlysur trist yw ymddeoliad ar yr un llaw, ar y llaw arall mae'n her a sialens inni aelodau'r capeli i ysgwyddo'r gwaith. Dyfynodd eiriau Paul – "Nid estroniaid na dieithriaid ydym ond aelodau o deulu Duw" a rhaid cydweithio i sicrhau ein dyfodol fel eglwys.

Talwyd teyrnged i'r gweinidog gan Mr. William Jones, Altrincham; Mr. Clifford Evans, Noddfa a Mrs. Mona Williams, Warrington. Mynedgodd y tri ohonynt eu gwerthfawrogiad o gyfraniad Eleri at bob agwedd o fugeiliaeth dros yr eglwysi, am ei pharch at deimladau pawb a'i diddordeb yn eu teuluoedd. Gweithiodd yn dawel ac yn siriol a'n harwain i lefelau newydd yr ugeinfed ganrif ar hugain. Pleser ac anrhydedd oedd ei chael yn weinidog arnom. Dymunwn iechyd iddi a hapusrwydd i'r dyfodol i fwynhau ei hymddeoliad ac i chwarae'r gitar!

Cyflwynodd Dr. W. H. Roberts, ar ran Capel Atrincham, gitar glasurol, llyfr 'History of Christianity'a darlun gan Mr. Pennant Roberts o ddwy sêt yng nghapel Willow Tree Road gyda'r haul yn tywynnu arnynt. Ar ran Eglwysi Noddfa a Warrington derbyniodd ddwy siec.

Ar ôl Defod y Gollwng a'r gynulleidfa'n

Eleri gyda Dr Bill Roberts

sefyll offrymwyd gweddi deyrngar i Eleri gan y Barch. Eirlys Gruffydd yr Wyddgrug.

Cafwyd ymateb gan Eleri a diolchodd i Dduw ac i bawb oedd yn bresennol. Diolchodd am yr anrhegion hael. Treuliodd ugain mlynedd fel cenhades ym Madagasgar a chaplan ar Lannau Merswy wedi ugain mlynedd ym myd addysg a phum mlynedd fel bugail ym Manceinion. Diolchodd i bawb a wnaeth y prynhawn yn fythgofiadwy. Daeth yr amser i ymddeol a dymunwn yn dda i Eleri. Boed iddi gael iechyd a hapusrwydd a bendith Duw fo arni i'r dyfodol.

Ar ddiwedd y cyfarfod 'roedd te blasus wedi'i baratoi gan chwiorydd yr eglwysi a phawb yn cael cyfle i gymdeithasu a sgwrsio a'i gilydd cyn troi am adref. Prynhawn hapus a phrynhawn i'w gofio, yn wir.

Anne Stanley Hunt.

Eleri Edwards gyda'r blaenoriaid